



Cynllun Gweithredu Tech-Amaeth i Gymru

Cynnwys


Cyflwyniad	3
Cefndir a Gweledigaeth	4
Cyd-destun y Polisi a'r Strategaeth	4
Rhesymau a Sut ydym wedi Mynd ati	5
Blaenoriaethau Gweithredu	7
Y Mentrau sy'n cael eu Cynnig	8
Metrigau	10
Dibyniaethau	10

Atodiad A: Sbardunau ar gyfer Datblygiad Tech-Amaeth

Cyflwyniad

Mae topoleg y byd Tech-Amaeth yn gallu bod yn amrywiol iawn, felly mae'n bwysig bod yn glir ynghylch cwmpas y gwaith a drafodir yn y ddogfen hon sy'n canolbwyntio ar agweddau digidol tech-amaeth. At ddiben y cynllun gweithredu hwn a'r blaenoriaethau sy'n gysylltiedig ag Economi Ddigidol Cymru:

Beth yw Tech-Amaeth? Teipoleg ar gyfer Cymru



Mae angen i'r cynllun gweithredu tech-amaeth gynnig gweledigaeth glir ar gyfer Tech-Amaeth fel sector amaeth yng Nghymru sy'n broffidiol, effeithlon a chynaliadwy gynhyrchiol sy'n gwneud y mwyaf o botensial tech-amaeth trwy bedwar amcan.

Strategaeth Tech-Amaeth – Cenhadaeth, Gweledigaeth a Phedair Prif Flaenoriaeth



Mae'r cynllun gweithredu hwn wedi'i greu gyda chymeradwyaeth Gweinidogion sy'n gyfrifol am Faterion Gwledig, Newid Hinsawdd a Thrawsnewid Digidol.

Mae'r gwaith o ddrafftio'r cynllun wedi elwa ar help ymchwil a gomisiynwyd yn allanol a chyfraniad Grŵp Gorchwyl a Gorffen amlddisgyblaethol Tech-Amaeth Llywodraeth Cymru. Defnyddiwyd polisiau a strategaethau Llywodraeth Cymru a thystiolaeth ac

adroddiadau allanol perthnasol gan ddiwydiant, y byd academaidd a chyfryngwyr fu'n gysylltiedig â helpu a datblygu'r agendâu amaethyddol ac amgylcheddol yng Nghymru i'w ddatblygu. Mae'r rhain wedi bod yn hanfodol ar gyfer ei lunio.

Cefndir a Gweledigaeth

Yn dilyn cyhoeddi'r Strategaeth Ddigidol i Gymru ym mis Mawrth 2021, mae pedwaredd cenhadaeth y strategaeth – yr Economi Ddigidol – yn disgrifio nifer o flaenoriaethau allweddol gan gynnwys:

'Datblygu ein clystyrau diwydiannol yng Nghymru i fod yn barod ar gyfer cymdeithas ddigidol yr 21ain Ganrif. Gan fabwysiadu, manteisio ar a chreu arloesedd digidol er lles yr economi ehangach'

Mae datblygu a mabwysiadu Tech-Amaeth a Tech-Amaeth Fanwl-Gywir yn feysydd strategol sy'n tyfu yn economi Cymru ac mae Llywodraeth Cymru'n credu eu bod yn teilyngu sylw manwl a map trywydd ar gyfer eu datblygu. Y weledigaeth yw manteisio ar botensial Tech-Amaeth trwy gyfuniad o weithgareddau cydweithredol a chydgyssylltiedig fydd yn cael eu cynnal gan randdeiliaid o'r llywodraeth a masnach ac academia trwy ymyriadau mesuradwy sy'n cael effaith. Rhaid i hynny gynnwys tyfu'r sector Tech-Amaeth, ei gymhwyso a'i ddefnyddio yn y gymuned ffermio a mentrau sy'n cael effaith positif ar amgylchedd a hinsawdd Cymru.

I ddeall yn well y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yng Nghymru a gosod sylfaen i'r gwaith o lunio Cynllun Gweithredu Tech-Amaeth i Gymru, comisiynodd Llywodraeth Cymru astudiaeth annibynnol i ddarparu gwybodaeth am y meysydd canlynol:

- Mapio gweithgareddau a chyfranogwyr ym myd Tech-Amaeth Cymru
- Arferion gorau Tech-Amaeth trwy'r byd
- Blaenoriaethau gweithredu yng Nghymru

Er na allai hon fod yn astudiaeth gynhwysfawr, cafwyd gwybodaeth arwyddocaol ac angenrheidiol trwyddi ar gyfer gosod y sylfaeni i'n helpu i lunio'r cynllun gweithredu hwn.

Cyd-destun y Polisi a'r Strategaeth

Mae Rhaglen Lywodraethu 2021-26, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021, yn disgrifio'r ymrwymadau uchelgeisiol y bydd Llywodraeth Cymru'n eu cyflawni dros y pum mlynedd nesaf. Bydd creu cynllun gweithredu a'i roi ar waith yn cyfrannu at wireddu nifer o ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu, sef:

- Rhoi'r Strategaeth Ddigidol i Gymru ar waith
- Creu system newydd o gymorth ffermio fydd yn cynyddu pŵer amddiffynnol natur drwy ffermio
- Helpu meysydd allweddol yn ein heconomi i arloesi, i dyfu a lleihau eu hól troed carbon.

Yn ogystal â'r Rhaglen Lywodraeth, bydd y Cynllun Gweithredu Tech-Amaeth yn cyfrannu hefyd at y strategaethau a'r polisiau canlynol:


- Cynllun Gweithredu Strategol Diwydiant Garddwriaethol Cymru
- Deddf Amaethyddiaeth Cymru
- Strategaeth Arloesi Cymru
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Rhesymau a Sut ydym wedi Mynd ati

Rhesymau

Mae llawer yn sbarduno datblygiad Tech-Amaeth, ac mae eu pwysigrwydd yn amrywio gan ddibynnu ar eu defnydd gan ddiwydiant, math o fferm, defnydd tir, da byw a chnydau ac ar y rhif y gwllith o gyfleoedd a heriau a wynebir.

Gellid rhannu'r heriau a'r cyfleoedd yn syml yn rhai economaidd a rhai amgylcheddol. Ond mae manteision a gwelliannau i ganlyniadau economaidd yn golygu hefyd gwella canlyniadau amgylcheddol. Dyma rai enghreifftiau:



Dyma rai sbardunau ar gyfer datblygu Tech-Amaeth:

- Cynhyrchiant
- Cyfleoedd yn y farchnad, ymateb iddi a'i holrhain
- Iechyd a lles anifeiliaid
- Plâu, chwyn a chlefydau
- Diogelwch a sicrwydd
- Lleihau'r ddibyniaeth ar lafur
- Newidiadau i'r gyfraith
- Yr amgylchedd, hinsawdd a bioamrywiaeth

Ceir disgrifiad manylach o'r sbardunau hyn yn Atodiad A.

O safbwynt ymchwil, arloesi a masnacheiddio, mae problemau'n cynnwys y gallu i gysylltu â setiau data gwahanol a'u cysylltu â'i gilydd, sicrhau cyllid i ddatblygu cynnyrch Tech-amaeth y tu hwnt i'r cam treialu/egino a'r defnydd o fannau profi i arddangos technoleg ac i ddatrys problemau ar y cyd gyda diwydiant. Mae masnacheiddio cynnyrch gafodd eu datblygu gan sefydliadau academaidd yn bwnc arall fyddai'n elwa o gael sylw manwl os ydym am weld Tech-Amaeth Cymru yn creu mwy o allforion.

Mae addysg a chodi ymwybyddiaeth o fanteision Tech-Amaeth yn faes a fyddai'n elwa ar gael mwy o sylw, hynny er mwyn helpu ffermydd i'w mabwysiadu. Mae'n hanfodol ein bod yn trafod yn effeithiol â darpar ddefnyddwyr Tech-Amaeth gan gofio mai manteision mabwysiadu yw craidd y stori, ac nid y dechnoleg.

Mae ymrwymadau Llywodraeth Cymru i'r targedau newid hinsawdd ac effeithiau hysbys amaethyddiaeth ar yr amgylchedd, yn golygu bod Tech-Amaeth yn rhan sylfaenol o'r darlun mwy o ran monitro a newid amgylcheddol. O'r pwys mwyaf i ni yw bod manteision defnyddio dyfeisiau Tech-Amaeth priodol yn cael eu gwireddu i helpu i ddatrys heriau'r dyfodol wrth geisio cyrraedd Sero-Net Cymru.

I gloi, mae'r agenda sgiliau yn ffactor allweddol y bydd angen ei gynnwys fel rhan o'r darlun mwy wrth ddatblygu galluoedd Tech-Amaeth Cymru yn y dyfodol. Rhaid sicrhau bod proffesiynolion amaeth heddiw ac yfory yn deall, cofleidio ac yn ymwreiddio Tech-Amaeth yn effeithiol. Er bod nifer o weithgareddau addysgu hynod bositif ar y gweill, gallai eu blaenoriaethu, eu trefnu a buddsoddi ynddynt yn well arwain at welliannau arwyddocaol.

Mynd ati

Yr egwyddor pwysicaf yw bod yr Is-adran Amaethyddiaeth a Datblygu Cynaliadwy yn perchenogi'r cynllun gweithredu Tech-Amaeth, a bod ymrwymiad i barhau i gefnogi swyddogaethau o fewn Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad – sef Busnes a Rhanbarthau ac Arloesi.

Mae angen i bob cynllun gweithredu Tech-Amaeth llwyddiannus weithio ar sail cenhadaeth i wireddu effeithiau mesuradwy. Gallai'r nod o wella effeithiau amgylcheddol trwy wella cynhyrchiant helpu i sbarduno buddsoddi cyhoeddus a phreifat mewn Tech-Amaeth a dod â gweithgareddau ar wahân ynghyd o dan amcanion cyffredin:

- Datblygu cynllun gweithredu ag iddo amcanion clir
- Derbyn risg a bod elfen hap gref mewn arloesi
- Gweithio gyda diwydiant i sicrhau newid tra'n aros am y farchnad (am nad yw efallai'n gwerthfawrogi manteision defnyddio tech-Amaeth eto)
- Annog cydweithio o fewn y diwydiant – ag academyddion (ar draws yr arbenigeddau), busnesau, busnesau ffermio, sector cyhoeddus (llywodraeth a chyrrff amaeth)

Trwy weithredu ar sail cenhadaeth, bydd y sector yn gallu canolbwyntio ar y prif sbardunau, heriau, cyfleoedd a risgiau a datblygu sector sy'n gynaliadwy gynhyrchiol all wynebu'r her hefyd i liniaru'r newid yn yr hinsawdd.

I gyflawni'n hamcanion, i wneud y mwyaf o botensial Tech-Amaeth a gwireddu'r manteision a ddaw o'i defnyddio, bydd angen polisiau 'gwthio' a 'thynnu' arnom ar draws y tri maes blaenoriaeth.

- Polisiau Gwthio: I annog cydweithio rhwng ymchwilwyr (ar draws disgyblaethau), mannau profi ar ffermydd, busnesau diwydiannol a fferm i ddatblygu atebion i wynebu'r prif her o sbarduno sector sy'n gynaliadwy gynhyrchiol.
- Polisiau Tynnu: I annog defnyddio a mabwysiadu Tech-Amaeth ar y fferm a'r gadwyni cyflenwi er mwyn gwireddu potensial.

Gan ddilyn yr adroddiad allanol y cyfeiriwyd ato uchod ar gyfer ein helpu i ddatblygu cynllun gweithredu Tech-Amaeth, ffurfiodd Llywodraeth Cymru grŵp gorchwyl a gorffen mewnol i ddwys-ystyried y cynllun a'i ddatblygu. Yn aelodau o'r grŵp rhyng-adrannol hwn, roedd cynrychiolwyr Datblygu Economaidd, yr Economi Ddigidol, Arloesi, Datblygu a Chynaliadwyedd Amaethyddol a Chyfarwyddiaethau Bwyd gydag unigolion yn cynrychioli arbenigeddau amrywiol o fewn pob Cyfarwyddiaeth.

Cafodd y cynllun gweithredu Tech-Amaeth ei ddosbarthu cyn ei gyhoeddi ymhlith cynulleidfa fewnol ehangach Llywodraeth Cymru i glywed ei barn cyn ei rannu â rhanddeiliaid allanol o'r gymuned amaethyddol yng Nghymru, gan gynnwys diwydiant, ffermio, academia a chyfryngwyr priodol eraill am eu sylwadau.

Blaenoriaethau Gweithredu

O dan y thema gyffredinol o wneud y mwyaf o Tech-Amaeth yng Nghymru, rydym wedi nodi pedair blaenoriaeth fel a ganlyn:

1. Meithrin Galluoedd Tech-Amaeth yng Nghymru

- Meithrin galluoedd Tech-Amaeth yng Nghymru trwy roi cymorth i fusnesau, datblygu clystyrau, trosglwyddo gwybodaeth a mewnfuddsoddi a chyllido er mwyn medru profi cysyniadau a'u datblygu i lefel fasnachol.

2. Sbarduno mabwysiadu Tech-Amaeth ar ffermydd er mwyn cynyddu cynhyrchiant a bod yn fwy effeithlon (gan gynnwys Amgylcheddol) - 'mwy am lai'

- Helpu ffermydd i fabwysiadu mentrau Tech-Amaeth sy'n gwella cynhyrchiant yng Nghymru – p'un a gawsant eu datblygu yng Nghymru neu beidio.

3. Sicrhau manteision amgylcheddol a helpu'r trawsnewid i Sero-Net

- Defnyddio Tech-Amaeth i fonitro'r amgylchedd fel rhan o'r broses o ddangos galluoedd gwyrdd Cymru wrth iddi fynd ar drywydd sero net. Nodi manteision i fusnesau a'r amgylchedd fel ei gilydd trwy ddatblygiadau a chymwysadau Tech-Amaeth.

4. Helpu i ddatblygu sgiliau ac addysg i roi'r galluoedd i broffesiynolion amaeth heddiw ac yfory i wneud y defnydd gorau posib o Tech-Amaeth

- Datblygu'r rhwydweithiau Addysg Bellach, Addysg Uwch a darparwyr eraill law yn llaw â diwydiant i gefnogi'r sgiliau sydd eu hangen yn y farchnad.

Y Mentrau sy'n cael eu Cynnig

Diolch i gyfraniad a mewnbwn arbenigeddau rhyng-adrannol yn y Llywodraeth, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Tech-Amaeth wedi cytuno ar ystod gynhwysfawr a chyd-ategol o gynigion ar gyfer mentrau. Mae amrywiaeth o adroddiadau, papurau ac amcanion polisi i'w cefnogi wedi'u defnyddio i ddatblygu'r cynllun.

1. Meithrin Galluoedd Tech-Amaeth yng Nghymru

- Neilltuo arbenigwr o'r Tîm Arloesi i arwain Tech-Amaeth a dadansoddi Ymchwil a Datblygu Tech-Amaeth – sy'n bod ac yn yr arfaeth - yn fanwl
- Ceisio cyllideb i fuddsoddi mewn clwstwr arloesi Tech-Amaeth am gyfnod o 3-5 mlynedd a chreu achos o blaid neilltuo cyllideb flynyddol sy'n cyfateb i wariant diwydiant.
- Sicrhau mewnbwn Tîm Mewnfuddsoddi Llywodraeth Cymru i ddatblygu ac ehangu'r hyn y gall Cymru ei gynnig.
- Gwneud Cronfeydd y DU yn fwy agored ac ymwybodol (e.e. InnovateUK) gyda'r amcan o gynyddu'r dyraniadau sy'n cael eu gwneud i Gymru.
- Ceisio datblygu cynllun grant Ymchwil a Datblygu sy'n benodol i Gymru i helpu cwmnïau a sefydliadau ymchwil i gydweithio â'i gilydd.
- Ystyried potensial opsiwn buddsoddi mewn Tech-amaeth yn arlwy fentrau Banc Datblygu Cymru i gefnogi busnesau newydd, busnesau ifanc a chwmnïau hŷn yng Nghymru.
- Ceisio sicrhau cyllideb i sefydlu 'Cronfa Her Ymchwil a Datblygu' ar gyfer Tech-Amaeth

2. Sbarduno Ffermydd i Fabwysiadu Tech-Amaeth

- Sicrhau arian i ddatblygu mentrau sy'n cael eu cynnal trwy Cyswllt Ffermio er mwyn targedu adnoddau i wynebu her Tech-Amaeth.
- Meithrin galluoedd ffermydd arddangos a chynghorwyr fferm a helpu undebau ffermwyr a'r wasg amaethyddol o ran agenda Tech-Amaeth.
- Rhoi cefnogaeth i dreialu prosiectau er mwyn cael hyd i ffyrdd newydd o gyflawni amcanion cynhyrchu
- Creu esiamplau i gefnogi'r ymwneud â'r gymuned amaethyddol.
- Cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth, gweithdai, gweminarau a digwyddiadau sy'n targedu defnyddwyr posibl Tech-Amaeth ac i gefnogi'r sector i fabwysiadu
- Nodi arian i gefnogi'r gymuned ffermio i arloesi a buddsoddi mewn Tech-Amaeth.

3. Sicrhau manteision amgylcheddol

- Gweithio'n glos â chyrrff arbenigol rhyngwladol a chenedlaethol o fewn y diwydiant ym meysydd monitro'r amgylchedd ac allyriadau ffo i sefydlu fframwaith gweithredu yng Nghymru
- Cynnal prosiectau braenaru i asesu platfformau sy'n seiliedig ar Ryngrwyd Pethau (IoT) i gefnogi monitro amgylcheddol ac wedi hynny, penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata
- Rhoi cefnogaeth i roi atebion Tech-Amaeth ar waith mewn monitro polisi a hunan-fonitro i wella perfformiad amgylcheddol busnesau fferm ac i leihau costau monitro.
- Ymchwilio i ddefnyddio atebion Tech-Amaeth i gefnogi'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol (cymalau'n dod i rym ar 21 Ebrill, 23 Ionawr a 24 Awst)
- Datblygu mantais gystadleuol i Gymru trwy ddilysu galluoedd cynaliadwyedd a/neu ddatblygu achrediad.

4. Helpu i ddatblygu sgiliau ac addysg

- Creu a hwyluso rhwydwaith i sefydliadau academaidd gydweithio a rhannu arfer gorau a deunydd dysgu yng Nghymru.
- Ceisio penodi nifer o Swyddogion Datblygu Tech-Amaeth Peripatetig i weithio yn y sector Addysg Bellach sy'n gallu:
 - Darparu Addysg Broffesiynol i staff AB ar ddefnyddio Tech-Amaeth
 - Sicrhau cysondeb ar draws y cwricwlwm ôl-16 o ran dysgu Tech-Amaeth
 - Meithrin perthynas ag adrannau Peirianeg / AI a Gwyddoniaeth Bwyd cysylltiedig mewn Addysg Bellach/Uwch
 - Datblygu a chyflwyno cyrsiau byr i'r gweithlu ar ddefnyddio Tech-Amaeth
 - Darparu rhaglenni cyfoethogi STEM mewn ysgolion i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o weithlu amaeth a thir.
- Nodi a brocera prosiectau cydweithredol â mentrau Addysg Uwch ar gyfer datblygu a masnacheiddio AI, dysgu peiriant ac offer dadansoddi data eraill.
- o Ystyried argymhellion adroddiad Arad 2021 yn ofalus, a gomisiynwyd gan Colegau Cymru i ddatblygu a gwella cyfleusterau yn y ddarpariaeth ôl-16 mewn datblygu amaethyddol a gwledig.

Metrigau

O ystyried natur amrywiol y mentrau sy'n cael eu cynnig a'r strategaethau/polisïau y maent yn ceisio eu bodloni, bydd angen datblygu cyfres o fetrigau addas. Byddant yn ffordd i swyddogion, partneriaid cyflawni a chyfranogwyr y mentrau i fesur effeithiau pob gweithred unigol a'u cyfraniad gyda'i gilydd at wireddu'r amcanion.

Pan gytunir ar fentrau unigol ond cyn eu rhoi ar waith, cynigir cytuno ar fertigau ag iddynt linellau adrodd clir sy'n bodloni amcanion strategol yr Is-adran Amaethyddiaeth a Datblygu Cynaliadwy a Grŵp Polisi a Chyflawni Digidol y Gweinidog.

Bydd timau Busnes a Rhanbarthau yr Economi Ddigidol ar Arloesi Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r ymarfer hwn i sicrhau bod arfau priodol yn cael eu defnyddio i randdeiliaid allu mesur llwyddiant y cynllun gweithredu Tech-Amaeth.

Mae nifer o'r mentrau a ddisgrifir yn y ddogfen hon yn ceisio gwella mecanweithiau a chyfryngau sy'n bod eisoes neu'n tynnu sylw atyn nhw. Bydd ganddynt eisoes eu metrigau i wireddu manteision a byddant felly'n hawdd eu mabwysiadu.

Dibyniaethau

Mae'r mentrau sy'n cael eu cynnig yn dibynnu ar nifer o bethau. Yn eu plith y mae cytundeb arweinwyr gwleidyddol, adnoddau dynol Llywodraeth Cymru, adnoddau ariannol a chefnogaeth a chyfraniad rhanddeiliaid yn eu ffurfiau amrywiol.

Mewn llawer achos, mae'r gwaith sydd wedi'i wneud wrth baratoi'r cynllun gweithredu hwn eisoes wedi llwyddo i sicrhau ymrwymiad positif gan nifer o'r rheini y mae'r mentrau unigol yn dibynnu arnynt. Bydd mabwysiadu'r cynllun yn ffurfiol yn lleihau'r ddibyniaeth nad yw eto wedi'i sicrhau.

Sbardunau ar gyfer Datblygu Tech-Amaeth

Cynyddu cynhyrchiant

Mewn marchnadoedd cystadleuol, mae gwella cynhyrchiant yn sbardun mawr dros newid. Mae cymhwyso technoleg yn golygu bod ffermwyr yn gallu bod yn fwy cynhyrchiol trwy fonitro Dangosyddion Perfformiad, ymateb i amodau cyfnewidiol, lleihau gwastraff a defnyddio mewnbynnau ac offer cyfalaf yn fwy effeithiol.

Ymateb yn well i farchnadoedd

Gallu deall deinameg marchnadoedd cyfnewidiol ac ymateb iddynt, trwy gysylltu cynhyrchiant â'r galw yn y farchnad a chyflwr y farchnad trwy dechnoleg.

Gwella iechyd a lles anifeiliaid

Mae cysylltiad cryf rhwng gwella cynhyrchiant a defnyddio technoleg i wella iechyd a lles da byw – i roi rhybudd cynnar o broblemau, monitro iechyd rhag trosglwyddo clefydau, gwella bridio a ffrwythlondeb a lleihau stres ar anifeiliaid.

Ymateb i blâu, chwyn a chlefydau

Gallu monitro da byw a chnydau am arwyddion o blâu, chwyn neu glefyd, targedu triniaethau, rhybuddion cynnar i allu gweithredu i'w hatal.

Gwella diogelwch a sicrwydd

Gwella amodau pobl sy'n gweithio ar eu pen eu hunain, gwneud ffermydd yn fwy diogel, diogelu rhag lladrad a difrod, diogelu ymwelwyr, monitro amodau gwaith ar ffermydd.

Gwneud y gadwyn gyflenwi yn fwy tryloyw

Gwella'r gallu i olrhain, gwneud y gadwyn gyflenwi yn fwy tryloyw – hynny'n gysylltiedig â haeriadau marchnata, gofynion y cwsmer a gwella atebolrwydd.

Lleihau'r ddibyniaeth ar lafur

Defnyddio technoleg i ryddhau llafur, i wneud llafur yn fwy cynhyrchiol, i reoli unedau mwy/helaethach, i ymateb i brinder llafur a gweithlu sy'n heneiddio, i leihau'r pwysau corfforol, ac i wneud y gwaith yn fwy diogel.

Ymateb i deddfwriaeth

Addasu i newid mewn deddfwriaeth, fel lleihau'r defnydd o wrthfotigau, cyfraith nitradau, ansawdd aer ac ati.

Ymateb i bryderon am yr amgylchedd/hinsawdd

Monitro a mesur amodau amgylcheddol a ffactorau sy'n dylanwadu ar amodau amgylcheddol. Addasu i hinsawdd sy'n newid a'i effeithiau ar gynhyrchu, nawr ac yn dyfodol.